OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 684

## Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) hepgorer y diffiniadau o "y Gyfarwyddeb" a "Cynulliad Cenedlaethol";

(b) yn y diffiniad o "cofrestr", yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(ii) yn lle "â'r Gyfarwyddeb" rhodder "â pharagraff (3)";

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Rhaid i'r rhif adnabod gael ei ffurfio o'r cod dull ffermio priodol a bennir yn unol â pharagraffau (5) i (7), wedi ei ddilyn gan y llythrennau "UK", wedi eu dilyn gan rif adnabod unigryw a ddyrennir i'r sefydliad gan Weinidogion Cymru.

(4) Pan ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol gwneud hynny, caniateir iddynt ychwanegu nodau pellach i'r rhif adnabod unigryw sy'n ofynnol gan baragraff (3) er mwyn adnabod heidiau unigol a gedwir gan sefydliad mewn adeiladau ar wahân.

(5) Ac eithrio pan fo paragraff (6) yn gymwys, pan ddefnyddir y dull ffermio yng ngholofn A, y cod dull ffermio priodol yw'r rhif cyfatebol yng ngholofn B.

| *Colofn A* | *Colofn B* |
|---|---|
| Maes | 1 |
| Ysgubor | 2 |
| Cewyll | 3 |

(6) Pan fo'r dull ffermio a ddefnyddir yn y sefydliad yn cynhyrchu wyau o dan yr amodau a nodir yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig, y cod dull ffermio priodol yw "0".

(7) At ddibenion paragraff (5), mae'r dull ffermio a ddefnyddir mewn sefydliad i'w bennu yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau ar gyfer

(**1**) O.S. 2004/1432 (Cy. 145), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer wyau.”

(4) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”, ac ym mharagraff (4), yn lle “i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;

(b) ym mharagraff (3), yn lle “mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdani” rhodder “mae Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani”.

(5) Yn rheoliad 7(1), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”, ac yn rheoliad 11, yn lle “neu’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “neu Weinidogion Cymru”.